



T247

## Gwneud cais i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Treth) am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys

Mae'n rhaid i chi ofyn i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Treth) am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys (Treth) os ydych yn credu bod camgymeriad cyfreithiol wedi bod ym mhenderfyniad y Tribiwnlys Haen Gyntaf.

### Sut i wneud cais

Anfonwch y cais hwn i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Treth) heb fod yn hwyrach na 56 diwrnod ar ôl i'r tribiwnlys anfon y penderfyniad llawn yr ydych am apelio yn ei erbyn.

Bydd llythyr y tribiwnlys sy'n cyd-fynd â'r penderfyniad yn dweud wrthyich a ydych wedi cael penderfyniad byr neu benderfyniad diannod a sut i wneud cais am benderfyniad llawn os oes angen un arnoch.

Os cawsoch benderfyniad byr neu benderfyniad ddiannod, rhaid i chi ofyn i'r tribiwnlys am benderfyniad llawn o fewn 28 diwrnod i ddyddiad y penderfyniad.

Mae'r 56 diwrnod yn dechrau o'r dyddiad pan fydd y tribiwnlys yn anfon y penderfyniad llawn atoch.

### Os oes arnoch angen cymorth

Cysylltwch â'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Treth) os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ffurflen hon. **Ni all y tribiwnlys roi cyngor cyfreithiol i chi.**

**Cyfeiriad e-bost:** [ymholiadaucymraeg@justice.gov.uk](mailto:ymholiadaucymraeg@justice.gov.uk)

**Rhif ffôn:** 0300 303 5176

(Dydd Llun i ddydd Iau 9am – 5pm, dydd Gwener 9am – 4.30pm)

Cewch ragor o wybodaeth am y tribiwnlys yn:

[www.gov.uk/courts-tribunals/first-tier-tribunal-tax](http://www.gov.uk/courts-tribunals/first-tier-tribunal-tax)

### Nodiadau

Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon â llaw, defnyddiwch BRIFLYTHRENNAU.

Defnyddiwch ddalen arall o bapur os nad oes digon o le i chi ddweud popeth.

Rhowch eich enw ar frig unrhyw ddalennau ychwanegol.

# Adran 1 – Gwybodaeth am apelio

- 1.1** Manylion yr apêl  
Cyfeirnod y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Treth)

Enw'r apêl

**Nodyn 1.1:** Gellir dod o hyd i'r cyfeirnod ar yr ohebiaeth a gawsoch gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Treth).

# Adran 2 – Gwybodaeth am y Ceisydd

- 2.1** Manylion y ceisydd  
Enw cyntaf

Enw olaf

Enw'r cwmni neu sefydliad (os yw'n berthnasol)

Rôl yn y cwmni neu sefydliad (os yw'n berthnasol)

**Nodyn 2.1:** Os ydych yn gwneud cais ar ran cwmni neu sefydliad, nodwch eich enw a'ch rôl.

Y ceisydd yw'r parti sy'n ceisio caniatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys.

- 2.2** Cyfeiriad  
Llinell gyntaf y cyfeiriad

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Cod post

Gwlad

## 2.3 Manylion cyswllt Cyfeiriad e-bost

Rhif ffôn

Rhif ffôn symudol

**Nodyn 2.3:** Bydd y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Treth) yn cyfathrebu â chi drwy e-bost oni bai nad oes gennych un.

## Adran 3 – Gwybodaeth am gynrychiolydd y ceisydd

### 3.1 A oes gennych chi rywun sy'n eich cynrychioli?

Oes. **Ewch i gwestiwn 3.2**

Nac oes. **Ewch i Adran 4**

### 3.2 Manylion cynrychiolydd y ceisydd

Enw cyntaf

Enw olaf

Enw'r cwmni neu sefydliad

### 3.3 Cyfeiriad

Llinell gyntaf y cyfeiriad

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Cod post

Gwlad

### Nodyn ar gyfer Adran 3

Os byddwch yn penodi cynrychiolydd, bydd y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Treth) ond yn ysgrifennu atyn nhw ac nid atoch chi. Mae'n rhaid i chi ddweud wrth y tribiwnlys os yw'ch cynrychiolydd yn rhoi'r gorau i weithredu ar eich rhan.

Mae'n rhaid i'ch cynrychiolydd fod wedi cytuno i'ch cynrychioli cyn i chi roi eu manylion ar y ffurflen hon.

Dim ond cynrychiolydd cyfreithiol all wneud cais am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys heb awdurdodiad.

Os nad yw eich cynrychiolydd wedi'i awdurdodi o dan Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007 i weithredu fel ymgyfreithiwr neu arfer hawl i ymddangos, yna llenwch y ffurflen awdurdodi T239. Gallwch ddod o hyd i'r ffurflen yn: [www.gov.uk/government/publications/form-t239-authorise-a-representative](http://www.gov.uk/government/publications/form-t239-authorise-a-representative)

### 3.4 Manylion cyswllt Cyfeiriad e-bost

Rhif ffôn

Rhif ffôn symudol

## Adran 4 - penderfyniad y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Treth)

### 4.1 Pa benderfyniad hoffech chi apelio yn ei erbyn?

Penderfyniad llawn

Hysbysiad fod y penderfyniad llawn wedi cael ei ddiwygio neu ei gywiro yn dilyn adolygiad

Hysbysiad fod cais i roi'r penderfyniad o'r naill du wedi bod yn aflwyddiannus.

Arall (darparwch gopi o unrhyw benderfyniad arall)

**Nodyn 4.1:** Darparwch wybodaeth ynghylch a yw'r cais hwn yn ymwneud â'r penderfyniad gwreiddiol ai peidio, penderfyniad sydd wedi'i gywiro neu ei ddiwygio yn dilyn adolygiad, neu yn dilyn cais aflwyddiannus i osod y penderfyniad o'r naill du. Defnyddiwch y blwch 'Arall' os nad yw'ch penderfyniad yn dod o fewn y categorïau a ddarparwyd.

## Rhan 5 – Ceisiadau allan o amser am ganiatâd i apelio

- 5.1** Dylai eich cais wedi'i lenwi am ganiatâd i apelio gyrraedd y tribiwnlys o fewn **56 diwrnod** i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Treth) anfon y penderfyniad llawn atoch. Os yw'ch cais yn hwyr, neu os nad ydych yn si r a fydd yn cyrraedd y tribiwnlys mewn pryd, rhaid i chi ofyn i'r tribiwnlys ymestyn y terfyn amser. Esboniwch y rhesymau pam fod eich cais yn hwyr a chynnwys unrhyw dystiolaeth sydd gennych gyda'r cais hwn.

### Nodyn ar Adran 5

Mae'n bwysig eich bod yn esbonio'ch rhesymau yn fanwl. Bydd barnwr yn ystyried eich rhesymau yn ei benderfyniad p'un ai i ymestyn y terfyn amser a'i peidio.

## Adran 6 - Rhesymau dros wneud cais a'r canlyniad a geisir

**6.1** Nodwch pa gamgymeriad neu gamgymeriadau cyfreithiol rydych chi'n credu bod y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Treth) wedi'i wneud a pha ganlyniad rydych chi'n ei geisio.

### Nodyn ar Adran 6

Rhaid i chi esbonio pam yr ydych o'r farn fod penderfyniad y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Treth) yn anghywir yn gyfreithiol, a nodi'r canlyniad yr ydych yn ei geisio.

Enghreifftiau o gamgymeriadau cyfreithiol:

- nid yw'r tribiwnlys wedi cymhwyso'r gyfraith gywir neu mae wedi dehongli'r gyfraith yn anghywir.
- Nid oedd gan y tribiwnlys dystiolaeth, neu ddim digon o dystiolaeth, i gefnogi

ei benderfyniad.

- ni roddodd y tribiwnlys resymau digonol dros y penderfyniad.

Nid yw hon yn rhestr gyflawn, ac mae'n bosib fod penderfyniad y tribiwnlys yn anghywir o safbwynt cyfreithiol am reswm arall. Dylech esbonio mor fanwl â phosib pam fod y penderfyniad yn eich achos chi yn anghywir yn gyfreithiol.

Os nad ydych yn si r p'un a oedd y penderfyniad yn anghywir yn gyfreithiol ai peidio, efallai y byddwch yn dymuno ceisio cyngor cyfreithiol, ond ni ddylech fethu'r terfyn amser ar gyfer anfon eich ffurflen gais.

## Adran 7 – Llofnod

**7.1** Pwy sy'n gwneud cais i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Treth) am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys?

Ceisydd (heb benodi cynrychiolydd)

Ceisydd yn penodi cynrychiolydd newydd

Cynrychiolydd awdurdodedig presennol y ceisydd (cynrychiolydd cyfreithiol neu anghyfreithiol)

Cynrychiolydd cyfreithiol newydd y ceisydd (fel y'i diffinnir o dan Reol 11(7)) yn cadarnhau ei benodiad

### Llofnod

#### Dyddiad

Diwrnod Mis Blwyddyn

| | | | | | | |

Enw llawn

Rôl (dewisol)

### Nodyn ar gyfer Adran 7

Os byddwch yn penodi cynrychiolydd, bydd y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Treth) ond yn ysgrifennu atyn nhw ac nid atoch chi. Mae'n rhaid i chi ddweud wrth y tribiwnlys os yw'ch cynrychiolydd yn rhoi'r gorau i weithredu ar eich rhan.

Mae'n rhaid i'ch cynrychiolydd fod wedi cytuno i'ch cynrychioli cyn i chi roi eu manylion ar y ffurflen hon.

Dim ond cynrychiolydd cyfreithiol all wneud cais am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys heb awdurdodiad.

Os nad yw eich cynrychiolydd wedi'i

---

## Cysylltu â'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Treth)

Dychwelwch eich ffurflen wedi'i llenwi at:

### Cyfeiriad e-bost

[ymholiadaucymraeg@justice.gov.uk](mailto:ymholiadaucymraeg@justice.gov.uk)

### Cyfeiriad

Tribiwnlys Haen Gyntaf (Treth)

Blwch Post 16972

Birmingham

B16 6TZ

Y Deyrnas Unedig

### Ffôn

0300 303 5176

(Dydd Llun i ddydd Iau 9am – 5pm, dydd Gwener 9am – 4.30pm)

## Y camau nesaf

Bydd y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Treth) yn gwirio'r ffurflen hon ac yn rhoi gwybod i chi os oes angen i chi ddarparu rhagor o wybodaeth. Os nad oes angen rhagor o wybodaeth, bydd y tribiwnlys yn ysgrifennu atoch chi neu'ch cynrychiolydd (os oes gennych un) i gadarnhau'r camau nesaf.

Cewch ragor o wybodaeth yn: [www.justice.gov.uk/tribunals/tax](http://www.justice.gov.uk/tribunals/tax)